<u>Cyngor Cymuned Llanystumdwy</u>,

Rhaglen waith y Cyngor– nos lau, Hydref 4ydd, 2018 yn brydlon am 7-00 y.h. yn

Ystafell Myrddin, Neuadd Goffa Chwilog

1. Ymddiheuriadau.
2. Llofnodi Cytundeb Cyflogaeth a Swydd Ddisgrifiad y Clerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol.
3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar Fedi 6ed, 2018.
4. Arwyddo cadarnhad y taliadau BACS gan y Cadeirydd.
5. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.
6. Datgan buddiant personol.
7. Cyngor Gwynedd.
   1. Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol; gwaith ailwynebu arfaethedig ger Betws Bach, Ynys a ger Gaerddu Bach, Chwilog i ddechrau ar Hydref 1af, 2018,hyd at 5 diwrnod gwaith i'w gwblhau.
   2. Cefnogaeth Gorfforaethol; Uned Gyfathrebu ac Ymgysylltu, *Pa wasanaethau sy'n bwysig ichi?*
   3. Adran Amgylchedd, Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad; Cyfyngiadau Parcio Arfaethedig ger tai Glanwern, Chwilog.
   4. Adran Cefnogi Aelodau; Gwasanaeth Democrataidd, Rhaghysbysiad Cyfarfod Cynhadledd Gyswllt Rheilffordd y Cambrian 30/11/18.
   5. Swyddog Cofrestru; Sedd Wag Achlysurol-Ward Llanystumdwy, Cyngor Cymuned Llanystumdwy.
   6. Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad ac Arriva Cymru,digwyddiad i drafod materion bwsiau ym Mhorthmadog ddydd Mercher Medi 26ain.
   7. Grant Cist Gymunedol Gwynedd.

8.Cyngor Gwynedd – Ceisiadau Cynllunio yn y gymuned.

1.Cais Rhif C18/0818/41/YA – Cais am hysbysiad oflaen llaw ar gyfer codi sied amaethyddol i gadw porthiant a pheiriannau; Tyddyn Heilyn,Chwilog.

2. Cais Rhif C18/0851/41/TC –Cais am dystysgrif datblygiad ar gyfer gweithred bresennol o godi estyniad unllawr i ochr yr annedd; Bryn Gwdyn Uchaf, Chwilog.

9.Lwfansau Cynghorydd am Ebrill 2018 ymlaen; un Cynghorydd heb lofnodi.

10. **Materion yn y gymuned**.

<u>Llanarmon</u>
<u>Llanystumdwy</u>
<u>Rhoslan</u>
<u>Chwilog</u>
<u>Pencaenewydd/Sardis</u>
<u>Llangybi</u>

1. Mater gan y Cynghorydd Angela Williams.
2. Mater gan y Cynghorydd Thomas Prys Jones.

11. Mynwent Newydd Llanystumdwy.
12. Mainc y Cyngor ar y llwybr o Lanystumdwy i Gricieth ger Lodge Ynysgain.

Materion Ariannol

13. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol yn cynnwys y siec golledig ddaeth i'r fei!
14. Archwiliad Ariannol Allanol gan gwmni BDO a chwblhau'r archwiliad.
15. Trefnu cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid.
16. Cais am gyfraniad tuag at gostau sefydlu Menter y Plu.
17. Aelodaeth o'r SLCC a'r ALCC.
18. Anfonebau angen eu talu:

    a. Trefn am dorri llwybrau Ynysgain Bach 2 doriad £150-,Tŷ Newydd 2 doriad £190-, a gyferbyn â cheg lôn Abercin £20-; cyfanswm £360-,taliad BACS.

    b. Neuadd Llanystumdwy; llogi'r Neuadd ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor, £30-, taliad BACS.

    c. Cyfrifiaduron Porthmadog, gliniadur ac ati i'r Clerc £349.98c yn cynnwys TAW, taliad BACS.

    ch. Cyllid a Thollau EM, treth ar enillion y Clerc, Gorffennaf, Awst, Medi 2018; £230- taliad siec.

    ch. Cyflog chwarter y Clerc,Gorffennaf, Awst, Medi 2018, i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM;

    Cyflog sylfaenol gross; 30 awr x 3 mis x £10.953c.= £985.77c
    Oriau ychwanegol, 5 awr x 3 mis x £10.953c = 164.30c
    Cyfanswm = £1,150.07c

    Cyllid a Thollau EM; £1,150- x 20% = £230-; cyflog net = £920-, taliad siec.

    d. Costau'r Clerc, Gorffennaf,Awst, Medi 2018; £295.17c; taliad siec.

It is possible to get an English translation, contact the Clerk